
BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Dydd Llun, 26 Medi 2016 am 1.00 pm

YN BRESENNOL:	Bethan Jones (Cadeirydd)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
AELODAU STATUDOL	Iwan Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
	Mohammed Mehmet Simon Smith	Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
	Euros Jones	Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC yn bresennol ar ran Sian Williams)
CYFRANOGWYR A WAHODDWDYD	Wendy Jones	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC)
	Mark Pierce Tracey Owen	Heddlu Gogledd Cymru (HGC) Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru CACC)
	Sioned Rees Stephen Hughes	Llywodraeth Cymru (LIG) Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
	Dr Kathrin Thomas	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Hefyd yn bresennol:	Mark Bowler	Prif Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth
	Sally Baxter	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio
Swyddogion:	Siwan Jones Nicola Kneale	Prif Swyddog Iechyd Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol
	Fran Lewis	Rheolwr Perfformiad a Gwella Corfforaethol
	Shan Morris Hannah Rigby	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
	Vicki Robarts Megan Taylor-Rose	Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

11. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dilwyn Roberts (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), y Cynghorydd Hugh Evans (Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych), Andrew Jones (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol), Dr Evan Moor (BIPBC), Helen Wilkinson (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych) a Sian Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru).

12. **Y GWASANAETH PRAWF CENEDLAETHOL - CADARNHAD Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Derbyniwyd llythyr a oedd yn cadarnhau presenoldeb ac yn manylu ar y cyfraniad yr oedd angen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ei wneud i'r BGC.

PENDERFYNWYD-
Nodi'r wybodaeth.

13. **CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU - DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd cais yn gofyn am gofrestru diddordeb yng ngwaith y BGC a byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda Chyngor y Celfyddydau mewn perthynas â'r ffordd fwyaf effeithiol iddynt gyfrannu.

PENDERFYNWYD-
Nodi'r wybodaeth.

14. **SEFYDLU HAWLIAU PLANT AR GYFER CENHEDLAETH Y DYFODOL**

Amlinellwyd amcanion y rhaglen fel a ganlyn:

- Datblygu adnodd i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i sefydlu dull gweithredu dros hawliau plant.
- Gweithio gyda BGCau i sicrhau bod ystyried hawliau plant yn ganolog i'w rhaglenni.
- Amlygu manteision dull gweithredu ar sail hawliau.

15. **LANSIO ASESIAID RISG AR NEWIDIADAU HINSAWDD CYMRU**

Ystyriodd yr Aelodau lythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar lansiad Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd Cymru, a oedd yn amlinellu Adroddiad a Chrynodeb o Dystiolaeth Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd Cymru.

Roedd y risgiau allweddol i'r hinsawdd yn cynnwys cyfnodau o ddiffyg a gormod o ddŵr yn effeithio ar gynhyrchu bwyd a llifogydd, lefelau'r môr yn codi a thymheredd cyfartalog ac eithafol yn cynyddu gan effeithio ar iechyd a lles.

Dywedodd cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru (Euros Jones) y byddai'n gyrru'r negeseuon allweddol o Adroddiad a Chrynodeb Tystiolaeth Newid Hinsawdd i Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy.

16. **BWRDD GWASANAETHAU LLEOL SIR DDINBYCH**

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2016.

17. **BWRDD GWASANAETHAU LLEOL CONWY**

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2016.

18. **BWRDD GWASANAETHAU LLEOL CONWY A SIR DDINBYCH**

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2016.

19. **MATERION SY’N CODI**

Dim.

20. **ADBORTH AR REFFERENDWM YR UNDEB EWROPIAIDD GAN:-**

Ystyriodd yr Aelodau adborth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â chanlyniad a goblygiadau Refferendwm Ewrop, ac fe nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd CLILC yn gobeithio y byddai modd sefydlu trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru mor fuan â phosibl i sicrhau bod cronfeydd strwythurol yn cael eu nodi ar gyfer hyfywedd Cymru.
- Amlygwyd bod diffyg polisi rhanbarthol y DU yn broblem.
- Adolygu Fformiwla Barnett er mwyn cael Fformiwla Gyllid Deg i Gymru.
- Anwadalwch y farchnad stoc a'r effaith bosib' ar Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Roedd Aelodau'r Bwrdd yn pryderu ynglŷn â'r diffyg data caled, eglur. Dywedodd Prif Weithredwr Conwy (Iwan Davies) ei fod wedi bod mewn cyfarfod diweddar â Chyfarwyddwr Swyddfa Cymru ynglŷn â Refferendwm yr UE a'r camau nesaf. Nodwyd bod llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn San Steffan gan Adran Gadael yr Undeb Ewropeaidd er mwyn er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer sefyllfa trafod telerau'r Llywodraeth.

Dywedodd Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru (Sioned Reed) y byddai'n gofyn am wybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD-

Nodi'r wybodaeth a bod Llywodraeth Cymru'n rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â chanlyniad a goblygiadau Refferendwm Ewrop.

21. HAWLIAU PLEIDLEISIO

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf (cofnod 5), ystyriodd Aelodau'r Bwrdd gylch gorchwyl diwygiedig mewn perthynas â pharagraff 13 Penderfyniadau, ac fe ystyriwyd y dewisiadau canlynol:

- Dewis 1 – cytundeb barn
- Dewis 2 – mai aelodau statudol yn unig a all bleidleisio
- Dewis 3 – bod gan bob un bleidlais oni bai fod yr eitem yn ymwneud â dyletswyddau statudol y BGC

Nodwyd bod trefn mewn rhai BGCau lle y cytunwyd ar faterion drwy gytundeb barn, ac os nad oedd cytundeb barn, yna byddai'r holl Aelodau Statudol yn pleidleisio.

Dylai'r Bwrdd geisio gwneud pob penderfyniad anstatudol trwy gytundeb barn, ac os nad oes cytundeb, bydd y penderfyniad yn dod yn ôl at yr holl Aelodau Statudol (ac nid y Cadeirydd yn unig) er mwyn pleidleisio.

Gofynnodd yr Aelodau am gael gwared â'r pwynt bwled diwethaf dan baragraff 7.1 "Dal y bleidlais fwrw os oes pleidlais" o ddyletswyddau Cadeirydd y Bwrdd.

PENDERFYNWYD-

(a) Y dylai'r Bwrdd geisio gwneud pob penderfyniad anstatudol trwy gytundeb barn a, phe na bai cytundeb, bydd y penderfyniad yn dod yn ei ôl at yr holl Aelodau Statudol er mwyn penderfynu trwy bleidlais (un bleidlais i bob sefydliad).

(b) Bod y pwynt bwled diwethaf dan baragraff 7.1 "Dal y bleidlais fwrw os oes pleidlais" yn cael ei dynnu o'r Cylch Gorchwyl.

22. TREFNIADAU CRAFFU

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad ar opsiynau posibl ar gyfer trefniadau cydgraffu rhwng Conwy a Sir Ddinbych er mwyn archwilio gwaith eu Cyd-fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac ar bosibilrwydd creu trefniadau rhanbarthol er mwyn craffu ar bedwar BGC Gogledd Cymru.

Ar hyn o bryd, mae Awdurdodau Conwy a Sir Ddinbych wedi dynodi eu Pwyllgorau Craffu Partneriaethau fel eu Pwyllgorau Craffu BGC dynodedig. Fodd bynnag, gan na fydd ad-drefnu Llywodraeth Leol yn dilyn Etholiadau Lleol 2017, byddai'r ddau Awdurdod yn cael dewis a fyddent yn dymuno adolygu eu trefniadau.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Llywodraethu Cyhoeddus Cymru i ymgymryd â phrosiect ymchwil a datblygu canllawiau ar gyfer craffu BGCau, i'w lansio yn ystod mis Ionawr/Chwefror 2017.

Trafodwyd y canlynol:

- Cadeiryddion BGCau yn pennu pa eitemau y dylid eu craffu
- Gwella'r modd roedd eitemau'n cael eu cydlynu
- Ystyriwyd bod craffu rhanbarthol yn rhy gymhleth
- Gwell fyddai aros nes bod y canllawiau wedi'u cyhoeddi a pharhau gyda'r trefniadau presennol

PENDERFYNWYD-

Mai Opsiwn 2 – 'Parhau i ddefnyddio trefniadau Craffu Awdurdodau Lleol ar wahân, ond cyflwyno perthnasau gwaith agosach rhwng y Pwyllgorau' fyddai model dros dro dewisol y BGLIC, gan aros am ganllawiau pellach gan Lywodraethu Cyhoeddus Cymru.

23. SGILIAU A GWIRFORDDOLI

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad ar drosolwg o'r sefyllfa bresennol yng Nghonwy ac yn Sir Ddinbych o ran gwirfoddoli a sgiliau.

Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn y Gweithdy BGC a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2016, lle bu Aelodau'n trafod cyfleoedd gwirfoddoli ar gadw pobl yn brysur, mynd i'r afael ag unigedd a lles yn gyffredinol, ynghyd a'r potensial i ddatblygu sgiliau lleol. Cynigiodd yr adroddiad brosiect posibl, a oedd yn ceisio cynyddu nifer y gwirfoddolwyr ar draws Conwy a Sir Ddinbych er mwyn mynd i'r afael ag allgáu digidol yn gyffredinol a thrwy ganolbwyntio ar fannau allweddol.

Roedd adroddiad Ofcom '*Connected Nation 2015*' yn amcangyfrif bod tebygolrwydd allgáu digidol yng Nghonwy ac yn Sir Ddinbych yn 'eithriadol o uchel'. Gyda chyfraddau defnyddio rhyngwrwyd is na'r cyfartaledd cenedlaethol, roedd bron i 19% o'r holl drigolion dros 16 unai heb ddefnyddio'r rhyngwrwyd erioed neu heb ei ddefnyddio ers dros 3 mis. Amlygwyd y manteision o allu defnyddio'r rhyngwrwyd i deuluoedd gydag incwm isel hefyd, ynghyd â'r rhwystrau.

Byddai ariannu swydd Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Digidol neu debyg, am gost o tua £35,000 (gan ofyn am gyfraniad gan bartneriaid) yn allweddol i ddatblygu'r prosiect hwn. Roedd adnoddau y gellid eu defnyddio i weithredu'n sydyn ac a fyddai'n creu canlyniadau gweladwy.

Er bod Aelodau'r Bwrdd yn cefnogi gwirfoddoli, bu iddynt ystyried nad oedd y cysylltiad gwirfoddol a digidol yn glir, ac mai ymwneud â'r dull o weithredu yr oedd gwirfoddoli.

Trafodwyd y canlynol:

- Integreiddio a chyfathrebu gwell trwy dechnoleg a'r manteision enfawr posibl mewn amser byr.
- Cyfleoedd posibl i ymchwilio i wneud mwy o ymchwil i'r pwnc hwn unwaith y byddai blaenoriaethau'n dod i'r amlwg o'r asesiad lles lleol.
- Datganodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy bod eu sefydliad wedi ymgymryd â phrosiectau digidol yn y gorffennol, gan

gynnwys canolbwyntio ar deuluoedd ifainc sydd mewn perygl o fod mewn tlodi; ffonau clyfar ddim yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial i arbed arian ar ddsbarthu bwyd am ddim ac ati, ac mae'r prosiectau wedi cael eu gwerthuso.

- Roedd digidol a gwirfoddol yn flaenoriaethau yn sgil yr angen i 95% o'r boblogaeth fod yn ddigidol gymwys. Amlygwyd yr angen am syniad clir a mesurydd llwyddiant a'r angen am gynyddu gallu, gan gomisiynu gwasanaethau digidol arbenigol.
- Mewn perthynas â manteision ac amcanion dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), nodwyd y byddai'r rhan fwyaf o'r amcanion yn cael eu cyflawni trwy wella gwytnwch a chydweithio ac y byddai'n adnodd a fydd yn darfod. Roedd yn allweddol adeiladu ar fodel cynaliadwy i barhau. Nodwyd wedyn bod allgáu digidol yn effeithio ar bob sefydliad ac roedd parodrwydd i yrru ymlaen. Roedd Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol yn gadarnhaol yn y maes hwn.
- Mewn perthynas â Phlisma, bu buddsoddi mewn seiber-drosedd, trolio, cyngor ar dwyll siopa, ac ati. Roedd y syniad yn un da, ond byddai angen ei gwmpasu a nodi cyraeddiadau clir.

PENDERFYNWYD-

Ailystyried gwirfoddoli unwaith y byddai blaenoriaethau o'r asesiad lles lleol yn dechrau dod i'r amlwg.

24. Y 1,000 O DDIWRNODAU CYNTAF

Ystyriodd Aelodau'r Bwrdd gynnig ar gyfer blaenoriaeth dros dro: Rhoi 'cychwyn gorau' i bob plentyn, gan ganolbwyntio ar y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf.

Roedd 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd yn ceisio rhwystro profiadau niweidiol yn ystod plentyndod trwy sicrhau bod teuluoedd yn barod i ymdrin â phwysau bywyd pob dydd, yn enwedig yn ystod beichiogrwydd a bod yn rhieni newydd. Os na fyddai'r rhain ar gael i'r plentyn, gallai effeithio ar bob agwedd o fywyd yn nes ymlaen, gan gynnwys cyfleoedd swyddi a thebygolrwydd datblygu problemau iechyd meddwl a chorfforol tymor hir. Gall gwaith adfer yn nes ymlaen fod yn llai effeithiol ac yn fwy costus nag ymyrryd yn gynnar.

Nod y cynllun oedd rhoi'r 'rhaglen/llwybr gwella system gyfan' fwyaf ffafriol ar waith am 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd, o genhedlu hyd at y pen-blwydd yn ddwy oed, gan mai hwnnw yw'r cyfnod sy'n cael ei adnabod fel yr un sy'n effeithio mwyaf ar drywydd iechyd bywyd unigolyn.

Trafodwyd y canlynol:

- Roedd yn gorgyffwrdd gyda Chynllun Lles y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Fodd bynnag, roedd canolbwyntio ar 1,000 o ddiwrnodau'n targedu atal cynnar yn syth.
- Dyblygu casglu gwybodaeth yn bosibl.
- Bu Mudiad *United for Health*, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru yn edrych ar yr hyn y gellid ei wneud.

- Canfu safleoedd braenaru (Torfaen a Wrecsam) bod yna nifer o deuluoedd iach a bod buddsoddi gwasanaethau'n gyffredinol yn broblem.
- Gwybodaeth dameidiog ynglŷn â blynyddoedd cynnar.
- Gweithdy Mapio fel cam cyntaf i ychwanegu gwerth ac edrych am gamau gweithredu a strategaethau eraill er mwyn atal.
- Roedd hi'n debygol y byddai'r asesiad lles lleol yn cydnabod y mater hwn fel maes angen yn y dyfodol.
- Byddai arian mewn perthynas â threchu tlodi yn newid y flwyddyn nesaf a'r flaenoriaeth allweddol oedd cael gafael ar arian.
- Cysylltiadau â Meddygon Teulu a llai o ferched yn eu harddegau'n feichiog, a oedd yn effeithio ar wasanaethau eraill.

PENDERFYNWYD-

- (a) Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- (b) Ystyried y cynnig yn flaenoriaeth dros dro ac y byddai gwaith mapio'n dechrau'n syth, gyda'r nod o fwydo i mewn i'r Asesiad Lles Lleol.**
- (c) Bod y Bwrdd yn derbyn diweddariad ar gynnydd yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.**

25. **CYFATHREBU**

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg ar draws sefydliadau partner y BGC mewn perthynas â dulliau cyfathrebu, polisiâu gweithio'n hyblyg a'r math o brotocolau rhannu gwybodaeth a oedd ar waith.

Amlygwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd brand a dull cyfathrebu ar wahân i'r BGC yn gorgymhlethu pethau ac nid oedd yn golygu fawr ddim i'r cyhoedd.
- Angen rhannu ac ad-drydar negeseuon.
- Angen symud oddi wrth logo a dull gweithredu BGC.
- Roedd adborth y cyhoedd wedi dweud y dylai sefydliadau gydweithio.

Amlygwyd yr angen am fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i rannu gwybodaeth ac roedd y canlynol yn enghreifftiau.

- O ran yr Heddlu, nid oedd modd rhannu gwybodaeth i fynd i'r afael â throsteddu cyfundrefnol, protocolau, ac ati. Roedd gan bawb lefelau safonol o warchod data, a nodwyd bod Awdurdodau Lleol yn cadw gwybodaeth.
- Angen dull gweithredu unedig ar gyfer cynhwysiant digidol. Cyfeiriad y Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chynhwysiant digidol, e.e. presgripsiynau ar-lein, apwyntiadau drwy negeseuon testun.
- Canolfan Cymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru a mynd i'r afael â Throstedd Casineb yn ddigidol.
- Angen pennu unigolyn ym mhob sefydliad i ymgymryd â gwaith ar ryngwyneb digidol ac i fapio arferion presennol sefydliadau partner.

- Y cyfryngau cymdeithasol a'r angen i sefydliadau partner 'hoffi' tudalennau Facebook ei gilydd er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac i gynyddu defnydd o Twitter ac Instagram.

PENDERFYNWYD-

- (a) Cytunodd yr Aelodau y dylid rhannu negeseuon/gwybodaeth ar wefannau a thudalennau cyfryngau cymdeithasol ei gilydd a bod Grŵp Cydlynu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn datblygu rhestr ddosbarthu mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol.
- (b) Ymchwilio i agor Wi-Fi ym mhob sefydliad partner (lle na wnaed hynny eisoes) er mwyn i'n gweithlu allu cysylltu â'u system gorfforaethol pan fyddant mewn cyfarfodydd yn adeiladau partneriaid.
- (c) Ymchwilio i/datblygu trefniadau ar gyfer ehangu darpariaeth rhannu desgiau, lle bo hynny ar gael, ym mhob un sefydliad BGC i bartneriaid BGC eraill ac archwilio opsiynau gyda Llywodraeth Cymru.
- (d) Nodi'r problemau sy'n gysylltiedig â rhannu data.
- (e) Bod y Bwrdd yn derbyn diweddariad ar gynnydd yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

26. **DIWEDDARIAD AR YR ASESIAID LLES LLEOL**

Adolygodd yr Aelodau ddiweddariad o'r Asesiad Lles Lleol fel a ganlyn:

Ymgysylltu:

- Cyfoeth Naturiol Cymru a chyfrifoldeb dros fapiau, llifogydd ac ansawdd dŵr.
- Roedd dull gweithredu tair ffordd - staff, ymgysylltu â'r cyhoedd
- Blaenoriaethau allweddol, i gynnwys rhestr o ddata/ystadegau.
- Cysylltiadau â sefydliadau lles.
- BIPBC – ymgysylltu 4 clwstwr mewn gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol.
- Cynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar y rhestr.
- Nid oedd pwysigrwydd cynnwys sefydliadau a chanddynt rywbeth i'w gynnig a cholegau wedi'u cynnwys.
- Angen persbectif ehangach.
- Cydnabuwyd y byddai lechyd yn cael ei gynnwys yn y fersiwn derfynol.
- Y Cyngor Chwaraeon a Chyngor y Celfyddydau - byddai'r rhain yn cael eu croesgyfeirio.
- Arfordir – wedi'i gynnwys gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a physgodfeydd hefyd.
- Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys rhai ardaloedd o'r Arfordir.

- Cynnwys: yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru, Undebau Tir a Ffermio.
- Byddid yn cysylltu â sefydliadau dros y mis i chwech wythnos nesaf ac roedd cynlluniau i ymgysylltu â'r Gweithredwyr Cludiant Arriva (er mwyn cynnwys ffyrdd, isadeiledd, bysiau a threnau).
- Roedd Cymdeithas y Cynhalwyr yn dod dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Ymgysylltwyd â Chynghorau Tref a Chymuned hefyd.
- Mewn perthynas â Chwmnïau Sector Preifat mawr, cysylltwyd â'r rhai a restrwyd ar y gronfa ddata a dylid cysylltu a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phroblemau â'r rhai a restrwyd yn y Ddeddf.

Pynciau trafod o fewn yr Asesiad

Pynciau strategol allweddol i'r BGC eu hystyried wrth lunio eu Cynllun Lles.

Cymdeithasol

- 2. Pobl ifanc a phobl iau'n mudo allan fel asedau. Ystyriwyd hi'n hanfodol bod cyfleoedd yn cael eu darparu i bobl ifanc aros a dychwelyd ac amlygwyd pwysigrwydd swyddi i ddod yn ôl atynt.
- 3. Cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio – mwy o anafiadau oherwydd tân a mwy o dementia, defnyddio gwirfoddolwyr a goblygiadau poblogaeth sy'n cynyddu. Amlygwyd yr angen am gadw hyn ar lefel uchel. Gosodwyd dadl na ddylid cynnwys y Gwasanaeth Tân yn awtomatig.
- 10. Pobl yn gwneud dewisiadau byw iach - ystyriwyd bod dewisiadau'n ddisgrifiad anghywir a bod hyrwyddo ymddygiad iach, gwneud ymarfer corff, ysmegu, iechyd rhywiol, bod disgwyliad oes hwy yn fwy addas a bod anghydraddoldebau mewn canlyniadau mewn perthynas â'r rhai a oedd yn byw mewn tldi.

I'w gynnwys:

Cymunedau Gwydn a ffigurau gwaelodlin ar gyfer ystadegau wedi'u cyhoeddi – nid oedd hyn wedi'i nodi ond roedd wedi'i gynnwys mewn meysydd gwahanol.

Rhaglen Atal – rheoli cyflyrau cronig yn fwy effeithiol a'r problemau y mae'r adrannau argyfwng yn eu hwynebu. Nodwyd bod cyfeiriad at hyn yn Asesiad y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn benodol mewn perthynas â phobl hŷn.

Economi

15. Cyfleoedd cyflogaeth lleol – roedd y rhain yn ddibynnol ar y Sector Cyhoeddus, Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol. O fewn Amgylchedd Ysgolion, roedd nifer o strategaethau wedi'u cyflawni ac roedd angen dadansoddi.

17. Gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth – byddai'r data hwn yn cael ei gymryd oddi wrth y Bwrdd Uchelgais Lleol.

18. Nifer fawr o fusnesau bach – amlygwyd twf mewn technolegau a oedd yn datblygu.

21. Sector Cyflogaeth Allweddol - gofal cymdeithasol a iechyd – yn cynnwys doctoriaid a gweithwyr proffesiynol meddygol eraill. Roedd

gofal Sector Preifat hefyd wedi'i gynnwys fel cyfleoedd a heriau i'r economi.

Datganwyd bod cyfleoedd Wylfa'n golygu, oherwydd y ffocws ar yr economi leol, y gallai fod diffyg pobl ifanc yn mynd i alwedigaethau eraill, er anfantais gwasanaethau cyhoeddus yr ardal.

Busnesau yn y sector gwyrdd (Bwrdd Uchelgais Economaidd – strategaeth a gweledigaeth) roedd y rhain yn drawsbynciol i'r Amgylchedd hefyd.

Roedd economi Bwyd yn drawsbynciol – mynediad at gynnyrch lleol amaethyddol a ffyniant i Gonwy a Sir Ddinbych. Roedd economi Bwyd yn bwnc mawr ac fe dynnodd sawl partner at ei gilydd. Roedd bwyta'n iach yn allweddol ac roedd sawl busnes bach a oedd yn cynhyrchu bwyd.

Yr Amgylchedd

22. Ased allweddol – yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth i gynnwys cynefin. Hefyd, bwyd, rheoli llifogydd a oedd yn set wahanol o fanteision. Ynni, pŵer dŵr a phŵer niwclear – yn dod o'r tirwedd. Hefyd, mynediad y cyhoedd at yr amgylchedd. Roedd CNC yn gweithio ar grynodedbau o wybodaeth amgylcheddol ar lefel sirol. Ychwanegodd Euros Jones (CNC) y byddai'r crynodedbau ar lefel sirol yn disgrifio'r sefyllfa leol ar gyfer adnoddau naturiol ac yn tynnu ar yr Adroddiad Cenedlaethol ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru er cyd-destun.

23. Ased allweddol – hyrwyddo ac amddiffyn treftadaeth leol ac roedd cysylltiadau cryf â thwristiaeth a Chyngor y Celfyddydau.

24. Newid hinsawdd – sut i bennu'r materion allweddol ar gyfer yr ardal.

Diwylliant

33. Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru – cynnwys sinema, y celfyddydau a hwyl. Ystyriwyd bod y diwylliant yn ehangach na'r iaith. Cyfeiriodd y gweithdy at y mater a nodwyd bod diwylliant Cymru'n gyfle i greu cydlyniant cymunedol. Awgrymwyd 'Diwylliant Llewyrchus', i gynnwys chwaraeon, y theatr, y celfyddydau a hamdden.

34. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / cydlyniant cymunedol – roedd hyn yn gryfach yn yr ardaloedd gwledig. Arwahanwydd cymdeithasol trwy ymgysylltu drwy gryfder ysgolion, llyfrgelloedd ac ati.

35. Beth yw barn y gymuned ar wasanaethau cymdeithasol – diogelwch ar y ffyrdd a'r gwrthdrawiadau angheuol diweddar. Roedd modd atal sawl damwain ac anaf (data hygyrch i amlygu hyn). Nid oedd unrhyw faterion yn achosi problem i'r Gwasanaeth Tân. Amlygwyd y cysylltiad â iechyd meddwl a thanau.

Amlygwyd cynnydd mewn annibyniaeth a llai o ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus.

O ran hyd y ddogfen, gall hyn fod yn fanwl. Roedd angen proses flaenoriaethu ac ychwanegu gwerth ac adeiladu ar yr hyn a oedd yn gwneud gwahaniaeth.

Cynghorwyd bod yr Asesiad yn canolbwyntio ar y sefyllfa bresennol, nid uchelgeisiau a nodi anghenion.

Amlinellodd Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad Sir Ddinbych y dyddiadau allweddol, o ymgynghoriadau hyd at y dyddiad cau statudol, ar gyfer cyhoeddi'r Asesiad Lles a chymeradwyaeth y BGC o'r cynllun drafft, fel a ganlyn:

- Cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2017 – Statudol ac Ymgynghori
- Cytuno i lunio Cynllun Lles erbyn diwedd mis Hydref 2017
- Drafft cyntaf yr Asesiad Lles erbyn diwedd mis Hydref 2016.
- Rhagfyr 2016 – cytuno ar asesiad i'w gylchredeg (ymgynghoriad 8 wythnos)
- Gweithdy ar amcanion Lles erbyn dyddiau cynnar mis Ionawr (unwaith y cyhoeddir, 14 wythnos ar gyfer dadansoddi ymatebion ar gyfer y cynllun drafft hefyd)
- Ionawr tan Ebrill 2017 - adborth a drafft cyntaf y Cynllun Lles. Ymgynghori â Chraffu a chaniatáu 12 wythnos
- Diwedd tan hwyr ym mis Gorffennaf 2017 – drafft terfynol (8 wythnos)
- Canol mis Medi 2017 - ei gyflwyno i amryw Fyrddau cyn y BGC.

Bu'r Aelodau'n trafod amserlen lywodraethu amryw sefydliadau, cynlluniau corfforaethol a therfynau amser a phwysigwydd derbyn cymeradwyaeth y BGC a chefnogaeth partneriaid y BGC, lle bo hynny'n briodol. Roedd yn hanfodol y byddai Grŵp Swyddogion BGC Conwy a Sir Ddinbych yn edrych ar y manylion ac yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.

Cwestiynau ar gyfer y Bwrdd

A gynhelid cyfarfodydd yn ddigon aml, gyda'r dull rheoli prosiectau o weithredu a'r grwpiau gwaith, i fodloni terfynau amser?

Ym mis Rhagfyr oedd y cyfarfod nesaf, ac roedd yr Aelodau'n cytuno bod angen cyfarfod anffurfiol cyn cyfarfod y BGC fis Mawrth ym mis Ionawr/Chwefror.

Byddai gwaith asesu'n cael ei wneud ar sail y wybodaeth a gasglwyd, a rhagwelwyd y byddai'r drafft cyntaf yn cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf BGC Conwy a Sir Ddinbych. Byddai'r asesiad drafft yn cael ei gylchredeg ganol mis Tachwedd er mwyn i'r Bwrdd ei ystyried cyn cyfarfod mis Rhagfyr.

Cytunwyd y byddai hanner cyfarfod mis Rhagfyr ar ffurf gweithdy er mwyn ystyried drafft o'r Asesiad Lles Lleol.

Mewn perthynas ag adnoddau a gallu, nodwyd y byddai datblygu cynllun yn cynnwys cyfraniadau proffesiynol a bod angen trafod adnodd.

PENDERFYNWYD-

(a) Diwygio'r Asesiad Lles Lleol: diweddariad y BGC, fel a amlinellwyd.

(b) Trefnu cyfarfod BGC anffurfiol ar gyfer mis Ionawr/Chwefror.

27. **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR - PROSES STRATEGAETH**

Rhodddwyd trosolwg o'r fenter 'Byw'n Iach, Aros yn Iach – Datblygu Cynllun ar gyfer y Dyfodol' i'r Aelodau, a oedd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Gwella iechyd a lles a chefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed
- Darparu gofal a chymorth yn nes at y cartref
- Datblygu gwasanaethau ysbytai gan gynnwys gofal wedi'i gynllunio a gofal mewn argyfwng a chwtogi'r rhestrau aros.

Roedd y fenter yn raglen fewnol a oedd yn adeiladu ar yr Asesiad Lles. Fodd bynnag, nid oedd yr amserlenni'n cyfateb mewn perthynas â chymeradwyo'n gynnar yn 2018. Amlygwyd yr angen am ymgysylltu â phob maes. Nodwyd bod cyfle i adolygu'r fenter o fewn cynlluniau'r ardal leol, cyn mynd allan i'r cymunedau.

Amlygwyd bod angen rhoi cynlluniau ar gyfer pobl wael uwch ben atal a bod angen gweithio i mewn i feysydd gofal sylfaenol eraill. Ystyriwyd gweledigaeth o fod yn iach yng Ngogledd Cymru'n bwysig ac roedd BIPBC yn canolbwyntio ar iechyd a lles gydag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

PENDERFYNWYD-
Nodi'r wybodaeth.

28. **SGWRS GOGLEDD CYMRU**

Rhodddwyd gwybod i Aelodau am fenter gan Lywodraeth Cymru: Sicrhau Gogledd Cymru Iachach, lle roeddent yn cysylltu ag amryw sectorau i drafod gwell canlyniadau iechyd. Roedd arolwg, i'w gynnwys ar-lein, bellach wedi'i gyhoeddi ac roedd ar gael ar wefan BIPBC. Comisiynwyd cwmni i ymgymryd â'r gwaith.

Ystyriodd yr Aelodau y byddai'r fenter yn rhoi gwybodaeth i Ddatblygu Cynllun hefyd. Fodd bynnag, roedd wedi'i groes gysylltu ac roedd angen gwella cyfathrebu rhwng y ddau sefydliad er mwyn manteisio ar y wybodaeth eang.

Nid oedd hi'n amlwg pam bod 2 fenter ac roedd angen sicrhau bod cysylltiad er mwyn ennyn hyder y cyhoedd.

PENDERFYNWYD-
Nodi'r wybodaeth.

29. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

1 Rhagfyr, 2016

Cefndir Partneriaethau yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Cytuno ar egwyddorion ar gyfer blaenoriaethu a diweddarau blaenoriaethau dros dro.

30. **UNRHYW FATER ARALL**

Llywodraeth Cymru'n cynnal Gweithdy ar yr Asesiad Lles yn Wreccsam ar 7 Tachwedd, 2017. Mae'r digwyddiad yn agored i Aelodau a Swyddogion y BGC, ac mae dyraniad o 8 cynrychiolydd i bob BGC. Byddai Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy'n cylchredeg amser y digwyddiad.

31. **ARWEINYDDIAETH GYDWEITHREDOL A MEITHRIN TÎM CRONFA'R BRENIN**

Ystyriodd Aelodau'r Bwrdd a ddylid trefnu sesiwn anffurfiol wedi'i hwyluso gan gorff proffesiynol uchel ei barch ai peidio.

PENDERFYNWYD-

Trefnu sesiynau anffurfiol, mewn perthynas ag arwain a meithrin tîm, wedi'u hwyluso gan gorff proffesiynol uchel ei barch.

(Daeth y cyfarfodi ben am 5.00 pm)
